DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 63 Mai 2007

Wythnos Gwirfoddoli: 1-7 Mehefin 2007

Beth yw Wythnos Gwirfoddoli?

Mae'r 23ain Wythnos Gwirfoddoli yn ŵyl wirfoddoli flynyddol trwy'r DU sy'n dathlu a chydnabod y ffaith fod tri-chwarter y boblogaeth yn ymwneud a gwirfoddoli fel rhan sylfaenol o'u bywydau - yng Nghymru fe'u cydlynir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)

Prif amcanion yr wythnos yw cydnabod, gwobrwyo a recriwtio gwirfoddolwyr - mae pob mathau o grwpiau a mudiadau ynghlwm wrth gynllunio digwyddiadau lleol, yn amrywio o ddiwrnodiau agored, seremonïau gwobrwyo i ddigwyddiadau cymdeithasol i wirfoddolwyr.

Pwy sy'n gwirfoddoli yng Nghymru?

Pobl hŷn ac ifanc, rhai cyflogedig a di-waith, dynion a merched.

Yn ôl arolwg diweddar a gariwyd allan mae dros 64% o oedolion yng Nghymru ynghlwm â gwaith gwirfoddol mewn rhyw ffordd - mae hyn gyfystyr â 1.5 miliwn o wirfoddolwyr.

Mae gwerth gwirfoddolwyr yng Nghymru ar draws £1.8 biliwn y flwyddyn

Ble allai gael gwybod mwy?

Cysylltwch â Medrwn Môn, eich Cyngor Gwirfoddol Lleol ar 01248 724944.

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cadw'n yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

NEWYDDION LLEOL

HWYL WRTH CHWARAE A DARLLEN

Dosbarthodd Medrwn Môn ar ran y sector wirfoddol ar yr ynys pecyn o lyfrau a theganau i ysgolion meithrin ar Ynys Môn trwy gefnogaeth ariannol 'Cymorth' Cyngor Sir Ynys Môn.

Gwobrwywyd deuddeg o unedau meithrin oddi fewn i ardaloedd penodedig Cymorth a gefnogodd y sesiynau hwyl yn Sbri Môn Amlwch a Thŷ Chwarae Bodffordd a drefnwyd gan Bethan Lloyd Jukes, Swyddog Datblygu Chwarae Môn a chasgliad o lyfrau a theganau.

Dywedodd Bethan Lloyd Jukes ' Eto rydym yn ddiolchgar i Gyngor Sir Ynys Môn trwy gyllid 'Cymorth' am gefnogi'n ariannol y fenter yma - prynwyd casgliad o lyfrau Cymraeg, teganau, a phypedau fydd o fantais i gannoedd o blant ar yr ynys efo'r grant. Bydd y profiadau cynnar yma o chwarae, dweud storiâu a darllen llyfrau yn gosod sylfaen i iaith a llythrennedd - gobeithio caiff y plant ifanc lawer o hwyl a defnydd helaeth o'r llyfrau - mae'n chwarae dychmygol ar ei orau'

Llun o blant uned feithrin Ysgol y Ffridd, Gwalchmai efo'r oedolion o'r chwith i'r dde Mrs Suzanne Evans, athrawes feithrin, Mrs Bethan Lloyd Jukes, Medrwn Môn a Mrs Mairwen Roberts, Prifathrawes yn derbyn eu llyfrau a phypedau.

Cyswllt: ***Bethan Lloyd Jukes 01248 724944 yn Medrwn Môn am fwy o wybodaeth ar weithgarwch chwarae.***

NEWYDDION CYLLIDO

Sefydliad Clore Duffield – Gwobrau celfyddydau perfformio

Mae'r Sefydliad yn cynnig grantiau i elusennau cofrestredig, mudiadau gwirfoddol a chymunedol, yn ogystal â grwpiau celf proffesiynol ag amatur yn y DU i brosiectau sy'n darparu pobl ifanc (i fyny i 18) i brofi cyfleoedd addysg yn y celfyddydau perfformio.

Grantiau o rhwng £1,000 a £10,000 ar gael i brosiectau celfyddau creadigol, mynegiannol a gweledol – yn cynnwys opera, dawns, cerddoriaeth, theatr gerddorol, y gair llafar a theatr.

Cyllid ar gael i brosiectau newydd yn hytrach nag ymestyniad neu ailadrodd rhai presennol. Ni ddylai cyfanswm cost y prosiect bod yn fwy na £30,000

Mae'r cynllun yn rhedeg tan 2010 ac yn gweithredu dwy rownd o ddyrannu grantiau pob blwyddyn – dyddiad cau ar gyfer rownd olaf 2007 yw 12fed Medi 2007

Ffurflenni cais ar gael o wefan y Sefydliad: http://www.cloreduffield.org.uk neu ffonio 0207 351 6061

Comic Relief – Rhaglen Grantiau'r DU

Mae'r ail gylch rhaglen grantiau mawr 2007 ar agor i geisiadau gan elusennau cofrestredig a grwpiau gwirfoddol yn y DU.

Grantiau mawr yn amrywio o £5,000 dim terfyn uchaf

Grantiau ar gael tuag at gostau rhedeg neu gostau cyfalaf i fudiadau neu brosiectau ymysg y pum categori canlynol:

Pobl Ifanc - Pobl Hŷn - Iechyd Meddwl
Trais yn y cartref - Cymunedau difreintiedig

Dyddiad cau ar gyfer yr ail gylch grant yma yw 8fed Mehefin 2007.

Mae'r elusen yn darparu rhaglen grantiau bychan hefyd o lai na £5,000 o dan yr un categorïau. Gellir ymgeisio unrhyw adeg am y grant yma. http://www.comicrelief.com/apply-for-a-grant/uk/ neu ffoniwch 020 7820 5555.

NEWYDDION LLEOL

CRONFA ALLWEDDOL MEDRWN MÔN

Os ydych yn grŵp neu fudiad gweithredol yn eich cymuned ac efo prosiectau cyfalaf neu refeniw all gyfrannu tuag at adfywio lleol mae'n bosib gall Cronfa Allweddol Medrwn Môn eich cynorthwyo.

Croesawir ceisiadau i'r Gronfa Allweddol gan ardaloedd a dargedir yn unol â chyfarwyddyd Undeb Ewropeaidd - ardaloedd Amcan 1Blaenoriaeth 3: Llanfaethlu, Mechell, Llanbadrig, Amlwch, Llaneilian, Moelfre, Llannerchymedd, Rhosyr, Bodorgan, Aberffraw, Caergybi, Llangefni (Ward Tudur) Rhosneigr, Bryngwran, a Trewalchmai.

I fod yn gymwys i ymgeisio i'r Gronfa Allweddol rhaid i'ch prosiect gydymffurfio â meini prawf a chanllawiau'r gronfa.

Am fwy o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol i drafod eich prosiect cysylltwch â Henri Hughes - Medrwn Môn ar 01248 724944

Ariennir y gronfa yma trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Undeb Ewropeaidd (ERDF) ac Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, ac fe'i gweinyddir gan Medrwn Môn.

Bydd y cynllun yn gorffen diwedd haf 2007 – ystyrir ceisiadau hyd at 31 Gorffennaf 2007.

Un prosiect llwyddiannus a gwblhawyd yn ddiweddar oedd y cae amlbwrpas i Lannerchymedd - penodol i beldroed ond yn addas i chwaraeon dewisol eraill.

Dewiswyd Llannerchymedd a Chemaes gan Gyngor Sir Ynys Môn fel dau leoliad i dderbyn y caeau yma, trwy rodd gan y corff Llywodraethu Pêldroed Ewropeaidd UEFA

Er hynny dewisodd Cyngor Cymuned Llannerchymedd y cae mwy, oedd yn golygu codi £48,000 o gyllid ychwanegol - llwyddwyd trwy sicrhau grantiau o gronfa gymunedol BNFL, Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, Menter Môn, a **Medrwn Môn (Cronfa Allweddol).**

Gobeithio caiff y cyfleuster ddefnydd helaeth gan y gymuned gyfan fydd yn annog y genhedlaeth newydd o beldroedwyr arbennig o Llan sydd wedi chwarae ar y lefel uchaf.

NEWYDDION LLEOL

Agoriad Swyddogol Hen Ysgol Marian-glas

Cynghorydd WJ Williams, Meirion Thomas, Cadeirydd, a Gwilym Hawes, Ysgrifennydd- swyddogion yr Hen Ysgol Marian-glas.

Bu'n noson arbennig iawn ym Marian-glas ar y 10fed o Fai 2007 efo llu o bobl leol, defnyddwyr a gwahoddedigion yn bresennol i ddathlu agoriad swyddogol yr Hen Ysgol, yn dilyn ailwampio i greu storfa ac addasu'r toiledau, at ofynion yr oes ohoni.

Amlinellwyd hanes yr Hen Ysgol ac fe'u hagorwyd yn swyddogol gan Gadeirydd newydd Cyngor Sir Ynys Môn, Cynghorydd W.J.Williams y Talwrn.

Adeiladwyd yn 1845 ond ers cau'r ysgol bu'n gweithredu fel neuadd gymunedol ers dros ganrif bellach.

Defnyddir y neuadd yn wythnosol gan grwpiau plant, pobl ifanc ac oedolion - un gweithgaredd pwysig a sefydlwyd yn 1924 ac fe'i cynhelir hyd heddiw yn yr Hen Ysgol yw Eisteddfod Gadeiriol Marian-glas.

Ar fur allanol i'r Hen Ysgol mae cofeb i'r diweddar Hugh Griffith, yr actor a gafodd Oscar am ei bortread o Arab yn y ffilm Ben Hur. Bu chwaer Hugh Griffith, Elen Roger Jones yn un o gymeriadau lliwgar yr ardal, a bu'n hynod gefnogol i'r Eisteddfod ar hyd ei hoes.

Llwyddwyd i ddenu grantiau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru / Cyngor Sir Ynys Môn / ***Medrwn Môn (Cronfa Allweddol)*** i uwchraddio'r adeilad cymunedol pwysig yma sy'n ganolbwynt gweithgarwch cymdeithasol eang i ardal Marian-glas.

Gwerthfawrogir ymdrechion y Pwyllgor a llu o unigolion cefnogol o dan arweiniad Ysgrifennydd gweithgar y Pwyllgor lleol Mr Gwilym Hawes – llongyfarchiadau.

Mae Patrick Lawty, athro wedi ymddeol o Lanbedrgoch, wedi enwebu **Croesffyrdd Môn Gofalu am Ofalwyr Cyf.** fel elusen leol ei amgueddfa am eleni. Yn amgueddfa Mr Lawty mae casgliad o arteffactau hanesyddol ac anghyffredin a gasglwyd dros y 30 mlynedd diwethaf o wahanol rannau o Fôn. Mae'n gwahodd partïon preifat i'w ffonio er mwyn cael gweld y casgliad yn rhad ac am ddim, er y byddai rhodd tuag at Croesffyrdd Môn (darparwyr gofal rhad ar gyfer Gofalwyr ym Môn) yn cael ei werthfawrogi'n fawr.
Gellir cysylltu â Mr Lawty i drefnu ymweliad ar 01248 450449.

NEWYDDION

Newyddion diweddaraf ar ddyfodol cyllid y Loteri

Mae grwpiau gwirfoddol ar draws y wlad yn dathlu'r newyddion na fydd £425 miliwn o arian sy'n cael ei ailgyfeirio o Gronfa'r Loteri Fawr i roi cymhorthdal at gost gynyddol o gynnal gemau'r Olympaidd ar draul cyllid i grwpiau gwirfoddol a chymunedol.

Yn dilyn pwysau i sicrhau fod cyllid y Loteri Genedlaethol i'r Trydydd sector yn ddiogel i'r dyfodol, cyhoeddodd Tessa Jowell, Ysgrifennydd Gwladol i Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon 'Ni ail gyfeirir unrhyw arian o'r loteri cyn 2009 i dalu am y Gemau Olympaidd. Ar ôl 2009 ail gyfeirir £425 miliwn, ond daw'r arian yma o gyfran y sector statudol o arian loteri. Diogelir rhan y Trydydd sector o arian loteri'

Dywedodd Ed Miliband Gweinidog y Trydydd Sector "Amlinellwyd yn glir gan grwpiau ar hyd a lled y wlad yr ofn posib ar gyllid a wynebir pe tynnir adnoddau prin o Gronfa'r Loteri Fawr".

Croesawyd y newyddion gan Clive Booth, Cadeirydd y Gronfa Loteri Fawr trwy ddweud y byddent yn medru cynnal eu hymrwymiad i ddarparu 60/70% o'u cyllid i'r Trydydd sector ar y lefel a fwriadwyd. Yn y cyfnod rhwng 2009 - 2012 dosbarthir oddeutu £1.1 biliwn yn grantiau i grwpiau yn y sector wirfoddol a chymunedol - bydd y ffigwr yma yn dal fel canlyniad i'r ymgyrch genedlaethol.

Sefydliad y Co-op

Mae Sefydliad y Co-op yn awyddus i gefnogi gweithgaredd yn y sector wirfoddol a chymunedol trwy grantiau i fudiadau a grwpiau lleol ar draws ei ardal masnachu. Mae â diddordeb arbennig mewn grwpiau a redir yn lleol sy'n gallu dangos tystiolaeth o werthoedd ac egwyddorion cydweithredol; hunan gymorth, cydraddoldeb, democratiaeth, pryder am y gymuned. Gall y gymuned fod yn ddaearyddol seiliedig ar bentref, tref neu stad o dai, neu gasgliad o bobl wedi dod ynghyd i fynd ar afael a mater penodol.

Grantiau ar gael rhwng £500 a £30,000
Dyddiad cau nesaf i geisiadau yw 1 Mehefin 2007.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar 01706 202032 neu ymwelwch â: www.united.coop/Foundation.asp

NEWYDDION

Gwobr Buddsoddwyr mewn Pobl

Bu Medrwn Môn yn llwyddiannus yn ail-gadarnhau ei hun fel mudiad safonol o ganlyniad i ailasesiad tair blynedd yn dilyn llwyddo i ennill y wobr **Buddsoddwyr mewn Pobl** yn 2004.

(Mae'n rhaid i fudiadau gael eu hail-asesu ar ôl 3 mlynedd i sicrhau gwelliant parhaus sy'n dod yn rhan anhepgor o'r safonau)

Mae dod yn **Fuddsoddwyr mewn Pobl** yn golygu nifer o gamau yn cynnwys:

- Casglu gwybodaeth – darganfod mwy am y safonau a siarad efo Canolfan Ansawdd Buddsoddwyr mewn Pobl Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Asesiad cychwynnol - adnabod sut mae eich mudiad yn cymharu â'r safonau cenedlaethol gyda rhaglen weithredol o sut i gau'r bwlch.
- Datblygu pobl a phrosesau fel bo'r angen
- Asesiad pellach – unwaith mae eich mudiad yn cyrraedd y safonau cenedlaethol fe gaiff ei gydnabod yn ffurfiol fel **Buddsoddwyr mewn Pobl** a gall roi cyhoeddusrwydd pellach i hyn trwy ddefnyddio'r logo
- Ail-asesu

Mae manteision **Buddsoddwyr mewn Pobl** i'w weld i'r mudiad ac i'r unigolyn gan gynnwys: canolbwyntio cliriach /cydnabyddiaeth a datblygiad strwythuredig / gwella cymhelliant ag ymrwymiad

Llun o'r Cynghorydd John Rowlands, Cyngor Sir Ynys Môn yn cyflwyno'r wobr i Gadeirydd Medrwn Môn, Mrs Eiluned Ann. B. Thomas ym Mhas Tre-Ysgawen yn ddiweddar (hefyd yn bresennol oedd Mr Jeff Williams Jones, Cynghorwr Buddsoddwyr Mewn Pobl).

Cynhelir agoriad swyddogol **Canolfan Pencarnisiog** rhwng 1pm - 3pm ar 30 Mehefin 2007. Bu'r ganolfan yn llwyddiannus mewn denu grant o gronfa Môngallwn, Medrwn Môn ac mae pwyllgor y ganolfan yn ddiolchgar iawn am y cymorth a gafwyd gan staff Medrwn Môn.

Gellir llogi ystafell ar gyfer gweithgareddau fel partion i blant, cyfarfodydd ayb. am £10.

I archebu cysylltwch â Mandi Roberts ar 01407 810332.

NEWYDDION

CYFARFOD CYNLLUN GWASANAETHAU CYMUNED
1 Mehefin 2007 yn Neuadd yr Eglwys St Cyngar, Llangefni am 2 p.m.

Ar 1 Mehefin 2007, cytunodd Mrs Liz Powell, Cyfarwyddwraig Nyrsio BILL Ynys Môn i fynychu'r cyfarfod i gyflwyno gweledigaeth o'r Cynllun Gwasanaethau Cymuned Ynys Môn a Gwynedd. Mae'n cynnwys 6 cydran Arweinyddiaeth Cymdogaeth, Cyfleusterau a Logisteg, Llwybrau Gofal Integredig, Rheoli Cyllid, Datblygu a Rheoli Gweithlu. Mae gan bob cydran sawl targed/penawdau, e.e. i enwi rhai targedau o fewn Arweinyddiaeth Cymdogaeth mae yn cynnwys cytundeb cydweithiwr gweithio strategaeth cyfathrebu, byddino adnoddau sector gwirfoddol, cynllun cefnogol cymdeithasol ayb. Dylai pob mudiad gwirfoddol sy'n gweithio o fewn iechyd, gofal cymdeithasol a lles, fod yn ymwybodol o'r cynlluniau gan y gall effeithio eu gwasanaethau.

Mae eich mewnbwn yn angenrheidiol, felly gwahoddir chwi i fynychu cyfarfod Cynghrair Cyflwr Tymor Hir, lle ceir cyflwyniad ar y Cynllun Gwasanaethau Cymuned yn Neuadd Eglwys St Cyngar, Llangefni am 2 p.m. Cysylltwch ag Ann Perkins os gallwch fynychu ar 01248 724944 neu e-bost ann@medrwnmon.org. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Ann.

CYFARFOD CYNGHRAIR CYFLWR TYMOR HIR YNYS MÔN A GOGLEDD GWYNEDD

Dyma grŵp sydd newydd ei ffurfio o fudiadau gwirfoddol all gynnig gwasanaethau sy'n cynnwys gofalwyr, budd-daliadau, cludiant, offer, cyfeillio a.y.b. i bobl sy'n dioddef o gyflyrau iechyd a niwrolegol tymor hir ag afiechyd cronig. Nod y grŵp yw:

- Gweithio gyda'i gilydd i sicrhau llais gwirfoddol arweinir gan ddefnyddwyr, i bobl gyda chyflwr iechyd tymor hir i wasanaethu fel corff ymgynghorol ar gyfer datblygiad polisi lefel strategol i Ynys Môn a Gogledd Gwynedd.
- Rhannu gwybodaeth ac ymatebion ymgynghorol sy'n ymwneud â gwaith polisi perthnasol.
- Rhannu gwybodaeth ynglŷn ag arferion a gwasanaethau da o fewn y sector gwirfoddol a chyfleoedd i gyd-weithio rhwng y mudiadau sy'n aelodau.
- Datblygu agenda clir a blaenoriaethu materion sy'n ymwneud â gwella ansawdd bywyd i bobl sy'n dioddef o gyflyrau iechyd tymor hir ar Ynys Môn a Gogledd Gwynedd.
- Codi proffil ac ymwybyddiaeth o effeithiau cyflyrau iechyd tymor hir ymysg pobl sy'n gwneud penderfyniadau.

Os â diddordeb ymaelodi, cysylltwch ag Ann Perkins ar 01248 724944. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Gwener, 1af Mehefin am 2.00 p.m. yn Neuadd Eglwys Sant Cyngar, Llangefni.

GWYBODAETH

Mae **Criw Niwbwrch Cyf** yn chwilio am

Ddau Weithiwr Rhan Amser – 16 awr yr wythnos - £6 yr awr i weithio yng Nghanolfan Niwbwrch (Eglwys Bach) o Fedi 2007 am 12 mis i ddechrau.

Yn ystod tymhorau'r ysgol:
Swydd Un: i arwain/gweithio gyda Grŵp Mam a'i Phlentyn
Swydd Dau: i arwain/gweithio gyda phlant oedran ysgol gynradd/ uwchradd mewn Clybiau ar Ôl Ysgol

Yn ystod Gwyliau Ysgol:
Y ddau Swyddog Prosiect i roi cymorth gyda Chynlluniau Chwarae Gwyliau

Rydym yn chwilio am bersonau brwdfrydig, egniol gyda safon addysg gyffredinol dda gyda chymhwyster perthnasol mewn NVQ lefel 2 neu 3 mewn Gofal Plentyn ac Addysg os yn bosibl.

Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn ddymunol ond nid yn angenrheidiol

Anfonwch amlen maint A4 gyda'ch cyfeiriad ac wedi'i stampio gyda 4 stamp dosbarth cyntaf arni i dderbyn pecyn ymgeisio at: 11 Bryn Rhedyn, Niwbwrch, Ynys Môn LL61 6ST

Pecynnau ymgeisio ar gael o 25 Mai 2007.
Dyddiad cau: 23 Mehefin 2007.

Nawdd grant – paratoi i'w dderbyn
12 Gorffennaf 2007, Llandudno

Ydych chi erioed wedi cael cais am gyllid yn cael ei wrthod, neu ydych chi erioed wedi ystyried beth sy'n gwneud cais llwyddiannus? Mae nifer o geisiadau am gyllid yn methu oherwydd diffyg paratoi neu dim ond am nad ydynt yn gweddu â meini prawf y cyllidwyr. Bydd y cwrs hwn yn edrych ar bob agwedd ar baratoi cais am gyllid a bydd yn dangos, mewn ffordd ymarferol, y ffynonellau mwyaf priodol o gyllid ar gyfer eich mudiad chi. Bydd y cwrs hefyd yn rhoi darlun cyffredinol o'r hinsawdd cyllido yng Nghymru, ac yn eich helpu i ddeall beth sy'n dylanwadu ar gyllidwyr. Mae'r cwrs yn addas ar gyfer pobl sy'n newydd i faes codi arian neu rai sydd eisiau cael gwybodaeth ddyfnach ynglyn â phrosesau codi arian.

I gael mwy o wybodaeth neu i archebu lle, cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu anfonwch e-bost at: help@wcva.org.uk neu ymwelwch â'r adran hyfforddiant ar: www.wcva.org.uk/training

NEWYDDION

Rhaglen Genedlaethol a gyllidir gan gronfa'r Loteri fawr yw '***Mentro Allan'*** - dewiswyd 15 prosiect cenedlaethol i redeg o 2006 - 2010. Rhennir yr un amcanion i'r 15 prosiect sef cynyddu'r defnydd hamdden o'r amgylchedd naturiol.

Mae pob prosiect ag ardal ddiffiniedig â grŵp targed - ar Ynys Môn diffiniwyd y grwp targed yn 'ferched rhwng 16 - 25 oed o ardaloedd difreintiedig'

Diweddarwyd darllenwyr Dan Do yn gyson o ddatblygiadau ynglyn â'r dewis o ardaloedd a wahoddwyd i gymryd rhan yn y prosiect yma, ac mae'n falch o nodi i'r panel benodi cydlynydd ar Ynys Môn.

Mae Ceri Jones yn 29 oed ac yn byw efo'i gwr ar fferm weithio yn Llannerchymedd. Mae Ceri â gradd mewn Rheolaeth Adnoddau Hamdden a Thwristiaeth o Brifysgol Cymru, Bangor. Mae ei diddordebau yn cynnwys marchogaeth, rhedeg, ffitrwydd yn gyffredinol, ac mae'n edrych ymlaen i'r cyfleon a'r sialensau o'i blaen.

Sian Mai Jones, Prif Swyddog Datblygu Chwaraeon a Ceri Jones, Cydlynydd Prosiect Mentro Allan ar Ynys Môn.

EIN CYFEIRIAD YW:
Neuadd y Sir, Ffordd Glanhwfa
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7EN
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org